PWYLLGOR CYNLLUNIO

13 MAWRTH 2019

**ADRODDIAD GWYBODAETH GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD**

# PROSIECT CYSYLLTU GOGLEDD CYMRU

## CADARNHAU BOD Y GRID CENEDLAETHOL YN TYNNU CAIS AM ORCHYMYN YN RHOI CANIATÂD DATBLYGU AR GYFER PROSIECT ISADEILEDD SYLWEDDOL CENEDLAETHOL YN ÔL

### 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Mae’r adroddiad hwn i ddiweddaru Aelodau ar wybodaeth a dderbyniwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio o ran cynigion y Grid Cenedlaethol i redeg cysylltiad grid o orsaf bŵer niwclear arfaethedig Wylfa i is-orsaf ym Mhentir, ger Bangor.

### 2. CEFNDIR.

2.1 Bydd Aelodau o bosib yn cofio bod adroddiad wedi ei gyflwyno i’r Pwyllgor Cynllunio ym mis Medi 2018 yn amlinellu’r sefyllfa o safbwynt y Prosiect Isadeiledd Sylweddol Cenedlaethol (gan Brosiect Cysylltu Gogledd Cymru), a fyddai’n destun ymchwilio i’r Arolygiaeth Gynllunio.

2.2 Derbyniodd Aelodau’r awgrym na fyddai unrhyw bwrpas, mewn amgylchiadau lle nad oedd unrhyw effeithiau disgwyliedig ar Sir Ddinbych, i’r Cyngor ymgysylltu ymhellach yn y broses Archwilio, a chytunwyd y dylid rhoi gwybod am hynny i’r Arolygiaeth Gynllunio.

### 3. DIWEDDARIAD

3.1 Ar 21 Chwefror 2019, rhoddodd yr Arolygiaeth Gynllunio wybod i bob parti bod y Grid Cenedlaethol wedi cadarnhau bod y cais ar gyfer y prosiect wedi ei dynnu yn ôl.

3.2 Mae llythyr y Grid Cenedlaethol at yr Arolygiaeth Gynllunio yn dweud fod y penderfyniad i dynnu yn ôl wedi dod o ganlyniad i’r ffaith bod Horizon Nuclear Power wedi dwyn y contract i adeiladu’r cysylltiad grid newydd â Wylfa Newydd i ben.

### 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

**EMLYN JONES** **PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD**